sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Cyfryngau'r Genedl: Cymru 2022



Cyhoeddwyd Awst 17 2022

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Trosolwg | 2 |
| Teledu: gwasanaethau, dyfeisiau a thueddiadau | 4 |
| Darlledu gwasanaeth cyhoeddus | 22 |
| Radio a sain | 41 |

# Trosolwg

Mae'r adroddiad *Cyfryngau'r Genedl: Cymru* yn trin ac yn trafod y tueddiadau allweddol sydd wedi ymddangos yn y sector cyfryngau ac mae'n nodi sut wasanaeth gaiff cynulleidfaoedd Cymru. Rydym yn mabwysiadu safbwynt ar draws llwyfannau, gan gynnwys teledu a radio a ddarlledir, yn ogystal â darpariaeth ddigidol gan gynnwys fideo ar-lein a ffrydio sain.

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o setiau data, gan gynnwys data wedi'i gasglu'n uniongyrchol gan ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig (ar gyfer allbwn, gwariant a refeniw), data BARB a RAJAR ac ymchwil defnyddwyr Ofcom (ar gyfer defnydd cynulleidfa).

Yn ogystal â'r adroddiad yma ar Gymru, mae adroddiadau ar wahân ar gyfer y DU drwyddi draw, Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn ogystal ag adroddiad rhyngweithiol sy'n cynnwys ystod helaeth o ddata. Mae fersiwn o'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

## Beth rydym wedi'i ganfod, yn gryno

### Mae'r nifer sy'n gwylio teledu a fideo yng Nghymru yn gyffredinol wedi gostwng ers cyfnod prysuraf y pandemig

- Ar gyfartaledd, roedd pobl yng Nghymru wedi treulio 4 awr 33 munud y dydd yn gwylio teledu a chynnwys fideo yn 2021, ar draws pob dyfais. Mae hyn 33 munud yn is na 2020 sef blwyddyn a gafodd ei dylanwadu'n drymach gan gyfyngiadau Covid-19, ond mae'n uwch na 2019.
- Roedd yr amser sy'n cael ei dreulio yn gwylio teledu gan ddarlledwyr yng Nghymru wedi disgyn 12.6% o'i gymharu â 2020. Dyma'r gostyngiad cymesur mwyaf o holl wledydd y DU, sy'n dangos bod y patrwm hirdymor o weld gostyngiad yn lefelau gwylio cyffredinol cynnwys darlledwyr, a welwyd dros y degawd diwethaf, wedi ailddechrau.
- Er gwaethaf y gostyngiad ers 2020, fodd bynnag, roedd pobl yng Nghymru wedi treulio 3 awr 8 munud y dydd yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu ar set deledu yn 2021, sy'n uwch na chyfartaledd y DU.
- Roedd y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) wedi codi yn Ch1 2022, gyda 71% o gartrefi Cymru yn tanysgrifio i o leiaf un ohonynt, sydd wedi codi o 64% yn Ch4 2021.
- Roedd gan wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) lefelau tebyg o ran cyrhaeddiad i SVoD, gyda'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn defnyddio mwy nag un gwasanaeth ffrydio. BBC iPlayer oedd y gwasanaeth ffrydio mwyaf poblogaidd yng Nghymru, ac roedd yn cael ei ddefnyddio gan 77% o oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau sydd ar-lein.
- Mae llwyfannau fideos cymdeithasol hefyd yn cystadlu am amser gwylio ac maent yn arbennig o boblogaidd ymysg grwpiau oedran iau. Roedd defnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru sydd dros 15 oed yn treulio 34 munud y dydd ar TikTok ar gyfartaledd, y mwyaf o blith yr holl wledydd, a 39 munud y dydd ar Facebook a Messenger ym mis Mawrth 2022.

## Roedd bodlonrwydd cyffredinol â darlledu gwasanaeth cyhoeddus ymysg y rheini sy'n ei wylio yng Nghymru

- Yn 2021, roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd yn cyfrif am gyfran o 54.9% o gyfanswm cynulleidfa teledu a gafodd ei ddarlledu yng Nghymru, roedd hyn wedi codi o 53.6% yn 2020.
- Mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn fodlon ar y cyfan â darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gyda saith o bob deg (72%) o'r rheini sy'n gwylio sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y chwe mis diwethaf yn dweud hynny, a dim ond un o bob deg (9%) sy'n dweud eu bod yn anfodlon.
- Mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn credu mai newyddion dibynadwy a chywir yw nodwedd bwysicaf darlledu gwasanaeth cyhoeddus, wedi'i ddilyn gan *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni'* a *'rhaglenni sy'n fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw'*.
- Yn dilyn heriau cynhyrchu ar anterth y pandemig, roedd gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yng Nghymru wedi cynyddu 4% yn 2021, i £27.5m, gyda'r rhan fwyaf yn mynd at raglenni heb fod yn newyddion/heb fod yn faterion cyfoes.
- Roedd oriau'r BBC o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi disgyn 7% yn 2021 i 573 awr; roedd y gostyngiad hwn ar draws pob genre.
- O'r gwariant y tu allan i Lundain gan sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, roedd 5.7% ar gynyrchiadau yng Nghymru yn 2021, i lawr o 6.1% yn 2020. Fodd bynnag, cynyddodd cyfran yr oriau rhwydwaith cymwys o 2.9% yn 2020 i 3.5% yn 2021.

## Mae'r ffyrdd y mae pobl yn defnyddio ac yn gwrando ar gynnwys radio a sain yng Nghymru yn dal i esblygu

- Yn 2021, roedd naw oedolyn o bob deg yng Nghymru wedi gwrando ar y radio am 22 awr yr wythnos ar gyfartaledd, gyda gorsafoedd radio rhwydwaith y BBC yn dal â'r gyfran fwyaf o'r farchnad.
- Mae gwrando ar y radio ar-lein yn cadw ei chyfran o wrando cyffredinol, ond mae'n ymddangos nad yw seinyddion clyfar wedi cael yr un effaith yng Nghymru ag y maent wedi'i chael yn y DU drwyddi draw; sef dim ond 4% o'r gwrando cyffredinol yng Nghymru, o'i gymharu â 10% yn y DU.
- Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod pobl yng Nghymru yn fwy tebygol na chyfartaledd y DU o fod â seinydd clyfar yn eu cartref (45% o'i gymharu â 39%).
- Roedd gwrando ar radio byw ar set radio yn uwch ar gyfer oedolion yng Nghymru, sef 74% o oedolion o'i gymharu â 65% o oedolion ym Mhrydain Fawr. I'r gwrthwyneb, roedd cyrhaeddiad wythnosol ffrydio cerddoriaeth a radio ar-lein yn is na chyfartaledd Prydain Fawr.
- Cynyddodd refeniw radio masnachol y pen yng Nghymru 16% rhwng 2020 a 2021.

# Teledu: gwasanaethau, dyfeisiau a thueddiadau

Yn dilyn 2020, pan gafodd cyfyngiadau Covid-19 effaith sylweddol ar arferion gwylio teledu a fideos, mae'r tueddiadau yn 2021 a dechrau 2022 yn dangos bod y tueddiad tymor hir cyn y pandemig wedi ailddechrau, ynghyd ag effaith barhaol y cyfnodau clo hir. Er bod y rhan fwyaf o fathau o wylio wedi gostwng o'r lefelau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen yn 2020, mae pobl yn treulio mwy a mwy o'u hamser gwylio yn gwylio cynnwys ar-alw, gan gynnwys ar wasanaethau sy'n cael eu darparu ar sail tanysgrifiad (ee Netflix), gwylio am ddim gan ddarlledwyr (ee BBC iPlayer) a llwyfannau fideo cymdeithasol (ee YouTube).

Mae'r bennod hon yn defnyddio data gan asiantaethau mesur cynulleidfaoedd a sgorio, ac arolygon defnyddwyr, i roi tystiolaeth a sylwebaeth ar newidiadau parhaus yn arferion a dewisiadau gwylio teledu a fideos cynulleidfaoedd.

## Llwyfannau teledu traddodiadol

### Mae mwy o gartrefi yng Nghymru yn defnyddio gwasanaeth teledu drwy dalu nag yn dibynnu ar Freeview neu Freesat

Mae setiau teledu wedi hen ennill eu lle yn ein cartrefi; roedd gan fwy na naw aelwyd o bob deg yng Nghymru (97%) set deledu yn Ch1 2022.[1] Ond mae'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio ar ein setiau teledu yn newid, yn bennaf oherwydd faint o gynnwys sy'n cael ei ddarparu a'r modd mae cael gafael arno drwy'r rhyngrwyd.


Roedd gwasanaethau teledu traddodiadol y telir amdanynt fel lloeren (Sky yn bennaf) a gwasanaethau cebl (Virgin Media) yn bresennol mewn ychydig llai na hanner cartrefi Cymru (46%) yn Ch1 2022. Mae lloeren y telir amdano yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r rhain, gyda gwasanaeth cebl Virgin Media yn bresennol mewn dim ond 7% o gartrefi Cymru yn Ch1 2022, i lawr o 10% yn Ch4 2021.

Gwasanaethau teledu daearol digidol *yn unig* (a ddarperir drwy erial) sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o wylio teledu am ddim (29%) gyda lloeren am ddim yn bresennol mewn dim ond 6% o gartrefi yng Nghymru, drwy Freesat.

Dim ond cyfran fach o gartrefi yng Nghymru (5%) oedd â gwasanaeth teledu protocol rhyngrwyd (IPTV). Caiff y rhain eu darparu drwy flychau pen-set gan ddarparwyr gan gynnwys TalkTalk a BT, ac maent yn cynnig gwasanaeth Freeview ochr yn ochr â sianeli teledu drwy dalu, sy'n cael eu darparu drwy gysylltiad rhyngrwyd.

[1] Arolwg Sefydliad BARB Ch1 2022.

**Ffigur 1: Y nifer sy'n defnyddio llwyfannau teledu yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB Ch1 2022.*

### Mae defnyddwyr teledu yng Nghymru yn fwy tebygol na chyfartaledd y DU o fod â setiau teledu wedi'u cysylltu

Mae sawl ffordd y gall defnyddwyr teledu yng Nghymru gysylltu eu setiau teledu â'r rhyngrwyd. Gall hyn fod drwy deledu 'clyfar' sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r rhyngrwyd neu drwy flychau pen-set a ddarperir gan ddarparwyr teledu drwy dalu fel Sky, Virgin neu BT. Mae dyfeisiau allanol fel ffyn ffrydio a chonsolau gemau hefyd yn gallu darparu mynediad i'r rhyngrwyd i setiau teledu pobl.

Yn 2022 roedd gan saith defnyddiwr teledu o bob deg (71%) yng Nghymru deledu wedi'i gysylltu drwy un o'r dulliau hyn. Roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y DU, lle roedd gan 64% o gartrefi'r DU deledu wedi'i gysylltu.[2]

[2] Traciwr Technoleg 2022 Ofcom.

**Ffigur 2: Setiau teledu wedi'u cysylltu yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2022.*

### Y nifer sy'n defnyddio band eang yng Nghymru

Roedd gan dros naw cartref o bob deg (94%) yng Nghymru gysylltiad â'r rhyngrwyd ar ddechrau 2022; roedd gan 88% fand eang sefydlog.[3] O ran cyflymder, ym mis Rhagfyr 2021, roedd 94% o holl gartrefi Cymru yn gallu cael band eang (cyflymder llwytho i lawr o 30 Mbit yr eiliad o leiaf). O'r rhain, roedd dwy ran o dair o gartrefi yn defnyddio gwasanaeth cyflym iawn, cynnydd o 55% yn 2020. 24% oedd y gyfran a oedd yn defnyddio gwasanaethau ffeibr llawn yng Nghymru, lle roeddent ar gael.[4]

# Fideo ar-alw


## Mae twf cryf mewn cartrefi SVoD yn parhau yng Nghymru

Yng Nghymru, roedd gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) wedi gweld cynnydd yn Ch1 2022, gyda 70% o gartrefi yn tanysgrifio i o leiaf un ohonynt, a oedd wedi codi o 63% yn Ch4 2021.[5]

Mae mwy a mwy o ddewis i wylwyr o ran yr amrywiaeth o wasanaethau y gallant danysgrifio iddynt. Netflix yw'r gwasanaeth SVoD mwyaf poblogaidd yng Nghymru o hyd, wedi'i ddilyn gan Amazon Prime Video a Disney+, ond mae amrywiaeth enfawr o wasanaethau SVoD llai yng Nghymru sydd, gyda'i gilydd, â chyrhaeddiad sylweddol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau fel NOW, a gwasanaethau genre arbenigol fel Crunchyroll (anime).

[3] Traciwr Technoleg 2022 Ofcom.
[4] Ofcom, adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2021: Cymru.
[5] Arolwg Sefydliad BARB Ch1 2022.

**Ffigur 3: Gwasanaethau fideo ar-alw a ddefnyddiwyd yng Nghymru i wylio rhaglenni, ffilmiau neu fideos eraill**





*Ffynhonnell: Arolwg VoD Ofcom 2022. Oedolion/pobl ifanc yn eu harddegau 13+ ar-lein, Cymru. Cwestiwn: C1a. Allwch chi ddweud wrthym pa rai o'r gwasanaethau canlynol rydych chi'n bersonol wedi'u defnyddio i wylio rhaglenni, ffilmiau neu gynnwys fideo arall yn ystod y 3 mis diwethaf? Sail: 171. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng 22-28 Chwefror 2022. *Rhaid talu ffi'r drwydded er mwyn defnyddio BBC iPlayer. Mae NOW yn cynnwys NOW Entertainment, NOW Cinema a NOW Sports.*

## Roedd gan wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) lefelau tebyg o ran cyrhaeddiad i SVoD, gyda'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn defnyddio mwy nag un gwasanaeth ffrydio

Yn ôl arolwg fideo ar-alw Ofcom, roedd bron i naw o bob deg (93%) o'r oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau sydd ar-lein yng Nghymru yn defnyddio gwasanaeth gwylio am ddim (unrhyw wasanaeth ffrydio nad yw y tu ôl i wal dalu, gan gynnwys YouTube).

Roedd gwasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys pedwar o'r pum llwyfan gwylio-am-ddim mwyaf poblogaidd ar gyfer gwylio rhaglenni, ffilmiau a fideos eraill. BBC iPlayer (77%) oedd y cyntaf, ac wedyn ITV Hub/ STV Player (48%), All4 (38%) a My5 (30%).

**Ffigur 4: Gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ddefnyddiwyd i wylio rhaglenni, ffilmiau neu fideos eraill yn ystod y tri mis diwethaf**




*Ffynhonnell: Arolwg VoD Ofcom 2022. Oedolion/pobl ifanc yn eu harddegau 13+ ar-lein, Cymru. Cwestiwn: C1a. Allwch chi ddweud wrthym pa rai o'r gwasanaethau canlynol rydych chi'n bersonol wedi'u defnyddio i wylio rhaglenni, ffilmiau neu gynnwys fideo arall yn ystod y 3 mis diwethaf? Sail: 171. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng 22-28 Chwefror 2022. *Rhaid talu ffi'r drwydded er mwyn defnyddio BBC iPlayer.*

Y tu allan i wasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, roedd YouTube hefyd yn boblogaidd, gyda dros hanner y bobl yng Nghymru yn ei ddefnyddio.[6] Efallai fod cyrhaeddiad is YouTube yn y cyd-destun hwn yn deillio o'r ffaith bod ganddo lawer iawn o gynnwys ffurf-fer a fideos gan grewyr, nad yw defnyddwyr yn eu cysylltu â 'rhaglenni' traddodiadol.

## Gwylio chwaraeon ar-lein: BBC iPlayer yw'r mwyaf poblogaidd ar gyfer gwylio cynnwys chwaraeon byw neu ddal i fyny

BBC iPlayer oedd y gwasanaeth fideo ar-lein mwyaf poblogaidd o bell ffordd ar gyfer gwylio cynnwys chwaraeon byw neu ddal i fyny, gydag Amazon Prime Video yn ail.

Mae gwasanaethau SVoD yn prynu mwy a mwy o hawliau chwaraeon, yn y DU ac yn fyd-eang; mae Amazon yn ffrydio chwaraeon fel gemau pêl-droed Uwch Gynghrair Lloegr, mae ganddo lawer o denis gan gynnwys ATP, WTA a'r US Open, a Chwpan Rygbi'r Cenhedloedd. Yn dilyn cais am hawliau yn 2022, bydd hefyd yn dangos gemau wythnosol Cynghrair y Pencampwyr o dymor 2024/25 ymlaen.

Ar hyn o bryd, mae cynnwys chwaraeon gan Netflix a Disney+ wedi'i gyfyngu i raglenni dogfen am chwaraeon yn y DU, yn hytrach na chynnwys chwaraeon byw na dal i fyny, ond mae'n bosibl y bydd y

---
[6] Arolwg VoD Ofcom 2022.

darparwyr hyn yn mentro i faes chwaraeon byw a dal i fyny, ac roedd adroddiadau bod Netflix wedi gwneud cais yn ddiweddar am hawliau i ffrydio Fformiwla 1.[7]

**Ffigur 5: Y deg prif wasanaeth fideo ar-lein yn y DU sy'n cael eu defnyddio gan oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau a oedd wedi gwylio chwaraeon byw neu chwaraeon dal i fyny yn ystod y tri mis diwethaf yn ôl gwlad: Chwefror 2022**

| Gwasanaeth fideo ar-lein | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| **BBC iPlayer** | 25% | 26% | 24% | 24% |
| **Amazon Prime Video** | 18% | 13% | 23% | 17% |
| **ITV Hub/STV Player** | 10% | 8% | 10% | 12% |
| **YouTube (ac eithrio clipiau)** | 8% | 8% | 9% | 4% |
| **Sky Sports (gan gynnwys NOW a Sky Go)** | 12% | 6% | 13% | 13% |
| **BT Sport** | 8% | 6% | 5% | 11% |
| **Facebook** | 9% | 4% | 7% | 3% |
| **All4** | 5% | 2% | 3% | 4% |
| **Twitch** | 3% | 1% | 2% | 1% |
| **Discovery+** | 3% | 0% | 4% | 2% |

*Ffynhonnell: Arolwg VoD Ofcom 2022. Oedolion/pobl ifanc yn eu harddegau 13+ ar-lein. Cwestiwn: C2a. Pa rai o'r gwasanaethau ar-lein hyn, os o gwbl, ydych chi wedi'u defnyddio'n bersonol i wylio digwyddiadau chwaraeon byw neu chwaraeon dal i fyny yn ystod y 3 mis diwethaf? Sail: Lloegr 1718; yr Alban 176; Cymru 171 a Gogledd Iwerddon 163. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng 22-28 Chwefror 2022.*

## Mae bodlonrwydd cynulleidfaoedd â gwasanaethau ffrydio drwy danysgrifio yn uchel

O'r rheini sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y chwe mis diwethaf, dywedodd pedwar gwyliwr o bob pump (81%) yng Nghymru eu bod yn fodlon â Netflix, a dywedodd tua thri chwarter eu bod yn fodlon ag Amazon Prime Video (75%).

[7] What's On Netflix, Netflix Reportedly Bids for Formula 1 Rights But Loses to Disney's ESPN, 27 Mehefin 2022.

**Ffigur 6: Bodlonrwydd cynulleidfaoedd â gwasanaethau ffrydio drwy danysgrifiadau penodol**




*Ffynhonnell: Traciwr PSM Ofcom 2021, C39. Crynodeb Bodlonrwydd - At ei gilydd, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r gwasanaethau teledu dal i fyny, ar-alw neu ffrydio hyn? Sail: Pawb yng Nghymru sydd wedi gwylio'r llwyfan yn ystod y 6 mis diwethaf (maint y sail ar gyfer pob gwasanaeth yn y siart) (DS nid yw pob gwasanaeth yn cael ei ddangos yma).*

Roedd Netflix yn gwneud yn dda o ran *'hawdd dod o hyd i'm ffordd o gwmpas'* (84%), *'hawdd dod o hyd i rywbeth rwy'n dymuno ei wylio'* (81%), gan gynnig *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* (79%) ac *'apelio' at ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd'* (79%). Roedd Amazon Prime Video hefyd yn gwneud yn dda o ran *'apelio at ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd'* (79%) ac *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* (74%).

I bobl yng Nghymru, y prif reswm dros wylio gwasanaethau ffrydio drwy danysgrifio oedd am y cynnwys; roedd hyn yn cynnwys genres penodol, amrywiol ac o ansawdd uchel a gafodd eu ffafrio gan gynulleidfaoedd.

***"I wylio ffilmiau, ac yn achos YouTube yn benodol i ganfod gwybodaeth neu sut i fynd ati i gyflawni tasg benodol."].*** **Dyn, 65-74 oed**

***"Mae ganddyn nhw amrywiaeth o raglenni ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol."*** **Menyw, 16-24 oed**

***"Mae yna wastad gyfresi a ffilmiau da yno - gallwch chi wylio cyfres gyfan mewn un tro yn lle gorfod disgwyl am bennod bob wythnos. Dim hysbysebion."*** **Menyw, 45-54 oed**

Ymysg y rheini nad oeddent wedi gwylio gwasanaethau ffrydio drwy danysgrifiad penodol yn ystod y chwe mis diwethaf, roedd y prif resymau dros beidio â'u defnyddio yn ymwneud â'r gost; gallai hyn fod oherwydd nad oeddent eisiau talu, cost y gwasanaeth, neu oherwydd nad oeddent eisiau talu am fwy o wasanaethau nag oedd ganddyn nhw'n barod. Soniodd rai am y cynnwys, gan ddweud nad oedd y rhaglenni o ddiddordeb iddyn nhw, ac roedd eraill yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y gwasanaeth o gwbl (er enghraifft, oherwydd rhyngrwyd gwael).

***"Roedd yn rhaid i ni ganslo ein tanysgrifiad Netflix oherwydd doedden ni ddim yn gallu fforddio ei gadw."*** **Dyn, 55-64 oed**

***"Dim diddordeb a'r gost. Dwi'n talu am Amazon, dwi ddim yn mynd i dalu am wasanaeth tanysgrifio arall sydd â'r un cynnwys yn y bôn."*** **Dyn, 55-64 oed**

# Gwylio Teledu yng Nghymru

### O ble daw ein data


Mae data am wylio sgrin a’r dadansoddiad yn yr adran hon yn defnyddio data sy'n cael ei ddarparu gan Fwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd y Darlledwyr (BARB), panel cynrychioladol cenedlaethol o 5,300 o gartrefi ledled y DU sy'n darparu'r mesuriadau teledu a ddarlledir swyddogol ar gyfer y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys yr holl wylio teledu a ddarlledir drwy set deledu, a drwy unrhyw ddyfais sydd ynghlwm wrth y teledu fel cyfrifiadur, dyfais ffrydio neu flwch pen-set.

Oni nodir fel arall, mae’r ffigurau a nodir ar gyfer gwylio wedi’i gyfuno dros 28 diwrnod ar set deledu. Mae gwylio wedi'i gyfuno'n cynnwys gwylio rhaglenni ar yr adeg maen nhw'n cael eu darlledu ar y teledu (gwylio byw) yn ogystal ag o recordiadau ar recordwyr fideo digidol (DVRs) a drwy wasanaethau chwaraewyr dal i fyny (ee apiau ar setiau teledu clyfar) hyd at 28 diwrnod ar ôl y darllediad cyntaf (gwylio'n ddiweddarach).

## Treuliodd pobl yng Nghymru 4 awr 33 munud ar gyfartaledd bob dydd yn gwylio’r teledu yn 2021

Fe wnaeth cyfanswm y gwylio fideos ar sgrin deledu yng Nghymru ddisgyn 33 munud o’i gymharu â 2020, gyda chyfartaledd o 4 awr 33 munud y pen y dydd. Treuliwyd chwe deg naw y cant o’r amser hwn yn gwylio teledu a ddarlledir (3 awr 8 munud), ac roedd hyn wedi gostwng 27 munud ers 2020. Daeth y cyfraniad mwyaf at y gostyngiad yng nghyfanswm y gwylio o deledu a ddarlledir, a oedd wedi gostwng 12.6% o un flwyddyn i'r llall. Roedd y cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog ar gyfer yr holl deledu wedi’i ddarlledu a oedd yn cael ei fesur yng Nghymru yn 2021 yn 80.7%, o’i gymharu â 85.9% yn 2020.

**Ffigur 7: Nifer gyfartalog y munudau bob dydd o amser sgrin teledu, y pen, yng Nghymru**





*Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (dros 4 oed). Munudau o deledu sy'n cael eu gwylio bob dydd ar gyfartaledd. Anhysbys = teledu sy'n cael ei ddefnyddio ond nad oes modd ei gysylltu â sain na'i adnabod mewn unrhyw fodd arall. Mae'n cynnwys chwarae gemau, gwylio DVDs, gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw, YouTube, gwylio'n ddiweddarach ar ôl 28 diwrnod, apiau ar deledu clyfar a llywio o amgylch Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG guides) lle nad oes llun o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu. Nid yw gorsafoedd radio digidol lle mae'r sain yn cael ei gysylltu wedi'u cynnwys. **Cynnwys darlledwyr eraill = cynnwys sy'n cael ei wylio ar wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr a gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu mesur nad yw wedi cael ei ddarlledu ar sianeli teledu llinol, er enghraifft rhaglenni egsgliwsif a chyfresi hanesyddol gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr.*

## Roedd Cymru wedi gwylio'r ail fwyaf o deledu a ddarlledir o holl wledydd y DU yn 2021

Ar gyfartaledd, treuliodd pobl yng Nghymru 3 awr 8 munud y dydd yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu ar set deledu yn 2021, yr ail uchaf o unrhyw wlad yn y DU.

Fodd bynnag, Cymru welodd y gostyngiad mwyaf mewn gwylio dyddiol o blith holl wledydd y DU. Yn gymesur, roedd hyn yn ostyngiad o 12.6% rhwng 2020 a 2021, o'i gymharu â gostyngiad cyfartalog y DU sef 9.9%.

**Ffigur 8: Swm cyfartalog y munudau gwylio y dydd, y pen, yn ôl gwlad: 2016-2021**





*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+).*

## Roedd gwylio'r teledu wedi gostwng ymysg pob grŵp oedran

Roedd pobl hŷn yng Nghymru yn gwylio mwy o deledu wedi'i ddarlledu ar set deledu na gwylwyr iau. Roedd pobl dros 54 wedi gwylio mwy nag unrhyw grŵp oedran arall, 5 awr 33 munud y dydd ar gyfartaledd, a oedd wedi disgyn 8.8% ers 2020. Y rheini rhwng 4 a 15 oed oedd yn gwylio'r lleiaf, ar gyfartaledd o 55 munud y dydd, i lawr 22.8% ers 2020.

**Ffigur 9: Swm cyfartalog y munudau gwylio y dydd, yn ôl grŵp oedran**





*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+).*

Roedd pobl iau yng Nghymru yn gwylio mwy o deledu nad oedd yn cael ei ddarlledu ar set deledu na gwylwyr hŷn (mae gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darlledu ar set deledu yn cael eu dosbarthu fel rhai 'anhysbys' gan yr asiantaeth mesur teledu BARB ac mae'n cynnwys YouTube, gemau a gwasanaethau ffrydio fel Netflix ac Amazon Prime). Roedd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn gwylio teledu anhysbys ymysg y grŵp oedran 4-15, a oedd wedi gwylio 2 awr 6 munud y pen y dydd ar gyfartaledd yn 2021, 7.0% yn fwy nag yn 2020. Roedd gwylio wedi cynyddu 2.0% ymysg pobl ifanc 16-34 oed, i 1 awr 55 munud ar gyfartaledd.

Ar y llaw arall, roedd gwylio anhysbys wedi gostwng 8.7% ymysg y rheini dros 54 oed, gan ostwng i 45 munud y pen y diwrnod ar gyfartaledd. Roedd gwylio hefyd wedi gostwng ymysg pobl 35-54 oed, gan ddisgyn 7.4% i 89 munud ar gyfartaledd bob dydd.

**Ffigur 10: Nifer gyfartalog y munudau bob dydd o amser gwylio anhysbys y pen yng Nghymru**




*Ffynhonnell: BARB. Ardal BBC Cymru. Gwylio anhysbys = teledu sy'n cael ei ddefnyddio ond nad oes modd ei gysylltu â sain na'i adnabod mewn unrhyw fodd arall. Mae'n cynnwys chwarae gemau, gwylio DVDs, gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw, YouTube, gwylio'n ddiweddarach ar ôl 28 diwrnod, apiau ar deledu clyfar a llywio o amgylch Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG guides) lle nad oes llun o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu. Nid yw gorsafoedd radio digidol lle mae'r sain yn cael ei gysylltu wedi'u cynnwys.*

## Rygbi'r Chwe Gwlad oedd y rhaglen a gafodd ei gwylio fwyaf yng Nghymru yn 2021

Rygbi'r Chwe Gwlad a ddarlledwyd ar BBC One oedd y rhaglen a gafodd ei gwylio fwyaf yng Nghymru yn 2021, gyda chynulleidfa gyfartalog o 890,000. Daeth y gêm i ben gyda buddugoliaeth i Ffrainc dros Gymru (32-30). Roedd Cymru hefyd yn chwarae ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad wythnos yn ddiweddarach, sef y bedwaredd raglen a gafodd ei gwylio fwyaf, lle'r oedd Cymru wedi trechu'r Eidal gyda sgôr o 48-7. Ar gyfartaledd, roedd 757,000 wedi gwylio'r darllediad, a ddarlledwyd ar ITV Wales.




*The Pembrokeshire Murders* oedd â'r bennod o raglen ddrama a gafodd ei gwylio fwyaf.[8] Roedd y rhaglen yn seiliedig ar stori wir, a chafodd y gyfres tair rhan ei ffilmio ar leoliad yng Nghymru.

[8] Delwedd: ITV Cymru Wales

**Ffigur 11: Y deg rhaglen a gafodd eu gwylio fwyaf yng Nghymru: 2021**

| Safle | Teitl y Rhaglen | Sianel | Dyddiad | Cyfartaledd (miloedd) | Cyfran y Rhaglen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rygbi'r Chwe Gwlad | BBC One | 20/03/2021 | 890 | 64.3 |
| 2 | *The Pembrokeshire Murders* | ITV Wales | 11/01/2021 | 873 | 53.4 |
| 3 | *Line Of Duty* | BBC One | 02/05/2021 | 770 | 60.5 |
| 4 | *Six Nations Championship* | ITV Wales | 13/03/2021 | 757 | 65.0 |
| 5 | *I'm A Celebrity... Get Me Out of Here!* | ITV Wales | 21/11/2021 | 662 | 48.5 |
| 6 | *Euro 2020* | BBC One | 11/07/2021 | 616 | 55.4 |
| 7 | *Oprah with Meghan and Harry* | ITV Wales | 08/03/2021 | 610 | 43.4 |
| 8 | *Death in Paradise* | BBC One | 07/01/2021 | 579 | 42.6 |
| 9 | *Vigil* | BBC One | 19/09/2021 | 571 | 43.0 |
| 10 | *Bloodlands* | BBC One | 21/02/2021 | 559 | 39.1 |


*Ffynhonnell: BARB wedi'i gyfuno i 28 diwrnod. Y bennod fwyaf poblogaidd ar sianeli unigol.*

## Fideos cymdeithasol yng Nghymru

### Roedd oedolion ifanc yng Nghymru a oedd wedi ymweld â TikTok ym mis Mawrth 2022 wedi treulio dros awr ar y platfform bob dydd, mwy nag yng ngwledydd eraill y DU

Mae TikTok yn dal i dyfu, gan gyrraedd 36% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yng Nghymru ym mis Mawrth 2022. Mae'n arbennig o boblogaidd ymysg oedolion iau sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, gyda 79% o bobl ifanc 15-24 oed ar-lein yng Nghymru yn ymweld â'r llwyfan.

**Ffigur 12: Cyrhaeddiad TikTok ymysg oedolion ar-lein yn y DU, yn ôl oedran: Mawrth 2022**





*Ffynhonnell: © Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, 1 Mawrth – 31 Mawrth 2022, oedolion oed: 15 oed a hŷn, gwledydd y DU. Nodyn: Nid yw setiau teledu na dangosyddion clyfar wedi'u cynnwys.*

Treuliodd oedolion yng Nghymru sy'n ymweld â TikTok tua 34 munud y diwrnod ar y llwyfan ym mis Mawrth 2022, bron i gymaint ag oedolion sy'n ymweld â Facebook a Messenger (39 munud y dydd).

Yn wahanol i wledydd eraill y DU a chyfartaledd y DU, lle mae'r amser mae oedolion yn ei dreulio ar Facebook a Messenger yn cynyddu gydag oed, roedd pobl 25-34 oed yng Nghymru wedi treulio mwy o amser ar Facebook a Messenger nag unrhyw grŵp oedran oedolion arall. Mae pobl 15-24 oed sy'n ymweld â TikTok, Instagram a Snapchat yn treulio mwy o amser ar y llwyfannau hyn nag ymwelwyr hŷn. Ym mis Mawrth 2022 roedd bron i 281,000 o ymwelwyr TikTok 15-24 oed yng Nghymru wedi treulio dros awr (tua 69 munud) ar TikTok bob dydd, ac roedd y 324,000 o ymwelwyr Snapchat 15-24 oed wedi treulio 43 munud y dydd ar Snapchat ar gyfartaledd. Mewn cymhariaeth, treuliodd ymwelwyr ar-lein rhwng 15 a 24 oed Facebook (gan gynnwys Messenger) ac Instagram 28 a 19 munud y dydd ar y cyfryngau penodol, yn y drefn honno.

Ym mis Gorffennaf 2021, roedd TikTok wedi cynyddu ei uchafswm hyd fideos o funud i dri munud, ac erbyn mis Hydref, roedd hyd y fideo ar gyfartaledd yn ddau funud; gallai hyn fod yn cyfrannu at y cyfnod hirach sy'n cael ei dreulio ar TikTok.[9]

**Ffigur 13: Yr amser a dreuliwyd y dydd gan oedolion ar-lein Cymru ar lwyfannau fideos cymdeithasol penodol, yn ôl oed: March 2022: (munudau)**




*Ffynhonnell: © Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, 1 Mawrth – 31 Mawrth 2022, oedolion oed: 15 a hŷn, Cymru. Nodyn: Nid yw setiau teledu na dangosyddion clyfar wedi'u cynnwys. Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom. Sylwch fod yr amser sy'n cael ei dreulio ar y llwyfan yn gallu cynnwys gwylio fideos, cyfathrebu, sgrolio neu unrhyw weithgaredd arall. Ar hyn o bryd, nid oes modd mesur faint o amser sy'n cael ei dreulio ar YouTube drwy ddefnyddio Ipsos Iris, gweler adroddiad y DU i gael gwybodaeth am YouTube.Mae'n debyg bod mesur wedi'i ystumio ar gyfer y defnydd sy'n eithriad gan banelwyr yn y grŵp oedran 45-54 ar gyfer Snapchat.*

# Ffynonellau newyddion yng Nghymru


## BBC One oedd un o'r ffynonellau newyddion a ddefnyddiwyd fwyaf yng Nghymru

Mae chwe oedolyn o bob deg yng Nghymru (61%) yn defnyddio BBC One ar gyfer newyddion yn gyffredinol, sy'n golygu mai dyma'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf, ac yna ITV

[9] Ystafell newyddion TikTok, Discover more ways to create, connect and be entertained with longer videos on TikTok, Hydref 2021.

Cymru (43%). Roedd y sianeli teledu eraill yn y deg uchaf yn cynnwys Sky News Channel, BBC News Channel a Channel 4. Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn uchel hefyd, a Facebook oedd y drydedd ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd (42%), Instagram oedd y chweched mwyaf poblogaidd (23%) a Twitter (22%) yn seithfed. BBC Radio 2 oedd y brif orsaf radio a nodwyd (19%). Nid oedd unrhyw bapur newydd wedi cyrraedd y deg uchaf.

**Ffigur 14: 20 ffynhonnell newyddion uchaf yn gyffredinol yng Nghymru: 2022**





*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2022 - sampl cyfun WyW ac ar-lein. Sail: Pob oedolyn 16+ yng Nghymru - 2022 W2*=337. *Data 2022 W1 heb ei ddangos oherwydd nad oedd gwaith maes wyneb yn wyneb yn bosibl yn ystod pandemig Covid-19. **ychwanegwyd gwefan/ap Wales Online yn 2022. ***Yn cynnwys y fersiwn Gymraeg.*

## Mae bron i hanner oedolion Cymru (46%) yn dweud bod ganddyn nhw 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am eu gwlad

Mae gan y bobl sy'n byw yng Nghymru gryn ddiddordeb mewn newyddion am Gymru. Mae bron i hanner yr oedolion sy'n dilyn newyddion yn dweud bod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am Gymru (46%), ffigur sy'n codi i 83% ymysg y rheini sydd â diddordeb 'mawr' neu 'ganolig'. Fel sy'n cael ei ddangos isod, oedolion yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban sydd fwyaf tebygol o ddweud bod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am eu gwlad.

**Ffigur 15: Lefel diddordeb pobl mewn newyddion am eu gwlad eu hunain, yn ôl gwlad**




*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2022 - sampl cyfun WyW ac ar-lein. Sail: Pob oedolyn 16+ sy'n dilyn newyddion 2022. W2* - Cyfanswm=2708, Lloegr=1758, yr Alban=332, Cymru=329, Gogledd Iwerddon=289. *Data 2022 W1 heb ei ddangos oherwydd nad oedd gwaith maes wyneb yn wyneb yn bosibl yn ystod pandemig Covid-19.*

## Adrodd ar faterion Cymreig ar raglenni newyddion a materion cyfoes y rhwydwaith

Roedd pandemig Covid-19 wedi dod â datganoli i flaen gwleidyddiaeth y DU ac wedi codi cwestiynau pellach ynghylch sylw i faterion datganoledig ar raglenni materion cyfoes a newyddion rhwydwaith, yn enwedig mewn meysydd polisi lle mae'r gwahaniaeth mwyaf fel iechyd, addysg a pholisi cymdeithasol.

I edrych yn fanylach ar y mater hwn, comisiynodd Ofcom ymchwil a chyhoeddodd adroddiad annibynnol yn archwilio sut roedd y prif ddarparwyr newyddion teledu (y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Sky) wedi rhoi sylw i faterion polisi datganoledig ar eu prif fwletinau.[10] Canfu'r adroddiad:

1. Yn bennaf o ganlyniad i Covid-19, mae'r sylw a roddir i faterion datganoledig wedi gwella o'i gymharu ag astudiaethau tebyg yn 2015 a 2016.

2. Dangosodd cyfweliadau ag uwch olygyddion newyddion fod ystafelloedd newyddion wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o roi gwybod am wahaniaethau polisi datganoledig mewn newyddion rhwydwaith. Roedd yr holl olygyddion yn cytuno bod angen cyfeirio mewn adroddiadau, er mwyn i gynulleidfaoedd ddeall a yw mater yn berthnasol i bob un o wledydd y DU neu rai. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod heriau egluro cymhlethdod datganoli mewn bwletinau byr.

3. Roedd datganoli yn ffactor a allai fod yn berthnasol mewn tua 40% o'r eitemau newyddion a aseswyd yn ystod yr astudiaeth. O'r rhain, roedd tua thri adroddiad o bob pump yn cyfeirio at ddatganoli, ac nid oedd dau o bob pump yn cyfeirio at berthnasedd mewn gwahanol rannau o'r DU – ee nid oedd cyfweliad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg am fesurau Covid mewn ysgolion yn cyfeirio at y ffaith bod y rheolau hyn yn berthnasol yn Lloegr yn unig.

[10] Reporting the nations and devolved issues on network news


4. Roedd adroddiadau newyddion teledu'r BBC yn cynnwys llawer mwy o gyfeiriadau at bwerau datganoledig na darparwyr newyddion rhwydwaith eraill, ac roedd newyddion ar-lein y BBC yn cyfeirio at berthnasedd materion datganoledig yn amlycach na newyddion teledu.

5. Yn gyffredinol, er gwaethaf cynnydd yn y sylw a roddwyd i'r sefydliadau datganoledig ers 2015, roedd cyfleoedd yn dal i gael eu colli i egluro penderfyniadau Llywodraethau gwahanol ar draws y gwledydd.

## Teledu yw'r ffordd fwyaf poblogaidd i bobl gael gafael ar newyddion am eu gwlad eu hunain

Er mai teledu oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o bell ffordd i bobl ym mhob un o wledydd y DU gael gafael ar newyddion am eu gwlad eu hunain, roedd y defnydd o radio yn amrywio'n sylweddol yn ôl gwlad; dywedodd 20% o oedolion yng Nghymru eu bod yn defnyddio'r radio fel ffynhonnell newyddion, o'i gymharu â 42% yng Ngogledd Iwerddon.

**Ffigur 16: Llwyfannau a ddefnyddir gan bobl i gael gafael ar newyddion am eu gwlad eu hunain, yn ôl gwlad: 2022**




*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2022 - sampl cyfun F2F ac ar-lein. Sail: Pob oedolyn 16+ sy'n dilyn newyddion 2022 W2* - Lloegr=1758, yr Alban=332, Cymru=329, Gogledd Iwerddon=289. Data 2022 W1, a 2021 heb ei ddangos oherwydd nad oedd gwaith maes wyneb yn wyneb yn bosibl yn ystod pandemig Covid-19. ** Ychwanegwyd yn 2022.*

## BBC One ac ITV Wales yw'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf i gael newyddion am Gymru

BBC One (46%) ac ITV Wales (28%) oedd y ffynonellau newyddion mwyaf poblogaidd a'r ail fwyaf poblogaidd ar gyfer newyddion am y wlad. Roedd Facebook (21%) yn dilyn hyn, ac roedd ffynonellau ar-lein eraill yn cael eu defnyddio gan lai na 10% at y diben hwn.

## Ffigur 17: Ffynonellau mae pobl wedi'u defnyddio i gael gafael ar newyddion am eu gwlad: 2022

| Lloegr | | Yr Alban | | Cymru | | Gogledd Iwerddon | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 31% | STV | 31% | BBC One | 46% | UTV | 47% |
| ITV | 18% | BBC One | 26% | ITV Wales | 28% | BBC One | 38% |
| Facebook | 17% | Facebook | 15% | Facebook | 21% | Facebook | 18% |
| Gwefan/ap y BBC | 8% | Gwefan/ap y BBC | 10% | Gwefan/ap y BBC | 7% | BBC Radio Ulster/Foyle | 13% |
| Sianel BBC News | 6% | Teledu BBC Scotland | 9% | Twitter | 6% | Gwefan/ap y BBC | 11% |
| Twitter | 5% | Twitter | 8% | Unrhyw wefan/ap newyddion yng Nghymru | 6% | Cool FM | 10% |
| | | BBC Radio Scotland | 7% | BBC Radio Wales/Cymru | 5% | U105 | 6% |
| | | Sianel BBC News | 6% | Sianel BBC News | 5% | Twitter | 6% |
| | | Radio masnachol lleol Bauer | 6% | | | The Belfast Telegraph | 5% |
| | | Instagram | 6% | | | Unrhyw wefan/ap newyddion yng Ngogledd Iwerddon | 5% |
| | | Unrhyw bapur newydd yn yr Alban | 5% | | | | |
| | | Unrhyw wefan/ap newyddion yn yr Alban | 5% | | | | |
| | | Sianel Sky News | 5% | | | | |
| Ddim yn dilyn newyddion | 10% | Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 5% | Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 6% | Ddim yn dilyn newyddion y Wlad | 2% |

*Ffynhonnell: Ofcom Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2022 - sampl cyfun WyW ac ar-lein. Sail: Pob oedolyn 16+ sy'n defnyddio Teledu/Papurau Newydd/Radio/Y Rhyngrwyd/ Cylchgronau ar gyfer newyddion yn 2022 W2* - Lloegr=1727, Yr Alban=326, Cymru=325, Gogledd Iwerddon=287. *Data 2022 W1 heb ei ddangos oherwydd nad oedd gwaith maes wyneb yn wyneb yn bosibl yn ystod pandemig Covid-19. **Yn cynnwys y fersiwn Gymraeg. Dim ond y ffynonellau sydd â nifer o 5%+ ym mhob Gwlad a ddangosir. Mae trionglau gwyrdd/coch yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng 2022 a 2020 (lefel hyder ar 99%).*

# Darlledu gwasanaeth cyhoeddus

## Cyflwyniad

Ymyriad a ddyluniwyd gan y Senedd Brydeinig yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB), i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn y DU yn gallu mwynhau amrywiaeth eang o raglenni o ansawdd uchel, sy'n bodloni anghenion a diddordebau pobl fel dinasyddion ac unigolion.

O dan y fframwaith presennol, mae'n rhaid i wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus penodol gyflawni rhai dibenion statudol ar y cyd â bodloni set o ofynion sy'n benodol i wasanaeth yn unigol.[11] Wrth ddisgrifio'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd, defnyddir y term 'darlledu gwasanaeth cyhoeddus' (PSB). Mae'r term 'cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus' yn derm ehangach a ddefnyddiwyd yn adolygiad Ofcom, Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, i adlewyrchu'r ffaith nad yw cynulleidfaoedd wedi'u cyfyngu mwyach i sianeli 'darlledu' ac y gallant wylio cynnwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar amrywiaeth o wasanaethau darlledu ac ar-lein.[12]

### Diwygiadau deddfwriaethol a gynigir i ddiogelu dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU

Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynodd Ofcom argymhellion i Lywodraeth y DU ar ddyfodol y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM) ar gyfer y degawd nesaf. Roedd yr argymhellion yn cynnwys casgliad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – adolygiad manwl o ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Yn ddiweddar, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei gweledigaeth ar gyfer y sector darlledu mewn Papur Gwyn cyn y Bil Cyfryngau sydd ar y gweill.[13] Ymysg pethau eraill, mae'r papur yn egluro bwriad Llywodraeth y DU i weithredu rhai o brif argymhellion ein hadolygiad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr. Mae'r rhain yn cynnwys cylch gwaith symlach, trefn amlygrwydd newydd ar gyfer gwasanaethau ar-lein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y prif lwyfannau teledu cysylltiedig, a mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran sut maen nhw'n cyflawni eu rhwymedigaethau, gan gynnwys drwy eu gwasanaethau ar-lein.

Mae'r bennod hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddata allweddol sy'n ymwneud â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys tueddiadau gwylio cynulleidfaoedd a dadansoddiad o allbwn a gwariant ar gynnwys gan rwydweithiau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau Traciwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus perchnogol Ofcom, gan edrych ar ganfyddiadau cynulleidfaoedd o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'u bodlonrwydd â nhw.

---

[11] Gweler Atodiad 8. Fframwaith rheoleiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynghylch y Fframwaith rheoleiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cylchoedd gwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r gofynion gwasanaeth-benodol ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus unigol.

[12] Yn ystod ein hadolygiad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, roedd nifer o ymatebwyr wedi cwestiynu cysyniad a chwmpas cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac yn awgrymu y dylid ei ddiffinio'n glir mewn deddfwriaeth. Fe wnaethom gytuno â'r angen am eglurder ac roeddem yn ystyried mai 'cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus' yw'r ffordd orau o ddisgrifio cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddarparu drwy amrywiaeth o lwyfannau, gan gynnwys teledu a ddarlledir a gwasanaethau ar-lein.

[13] Up next - the government's vision for the broadcasting sector, Ebrill 2022.

**Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru**


Yng Nghymru, mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan y BBC, ITV (sy'n dal trwydded Channel 3 yng Nghymru), S4C, Channel 4 Corporation (C4C) a Channel 5. Er bod holl wasanaethau teledu'r BBC ac S4C yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr eraill sydd yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel newyddion a chynyrchiadau gwreiddiol, mae'r darlledwyr hyn yn cael manteision penodol: mynediad i sbectrwm (y tonnau radio gwerthfawr sy'n cynnal cyfathrebu di-wifr) er mwyn darlledu eu gwasanaethau; amlygrwydd ar gyfeiryddion rhaglenni electronig ar deledu; ac, ar gyfer y BBC ac S4C, ffi'r drwydded.

## Tueddiadau gwylio darlledu gwasanaeth cyhoeddus

### Roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynrychioli dros hanner o gyfanswm y gwylio teledu

Yn 2021, roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd yn cyfrif am gyfran o 54.9% o gyfanswm cynulleidfa teledu a gafodd ei ddarlledu yng Nghymru. Roedd hyn wedi codi o 53.6% yn 2020. BBC One oedd â'r gyfran cynulleidfa uchaf o unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol ar draws pob gwlad ac roedd hyn ar ei huchaf yng Nghymru sef 23.2%. Channel 5 oedd â'r gyfran cynulleidfa isaf o unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol, sef 3.9%.

**Ffigur 18: Cyfran ganrannol o gyfanswm gwylio teledu ar gyfer y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl gwlad: 2021**





*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+). Nid yw'n cynnwys unrhyw sianeli +1 awr. Heb gynnwys S4C yma er mwyn gallu cymharu rhwng y gwledydd.*

## Agweddau cynulleidfaoedd at ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru

### Yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn fodlon ar sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Yng Nghymru, dywedodd saith o bob deg (72%) o'r rheini a oedd wedi gwylio sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y chwe mis diwethaf eu bod yn fodlon arni; dim ond un o bob deg (10%) ddywedodd eu bod yn anfodlon.

**Ffigur 19: Bodlonrwydd cynulleidfaoedd â gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol**





*Ffynhonnell: Traciwr PSM Ofcom 2021, C28: Ac nawr, os ydych chi'n meddwl am BOB sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd, pa mor fodlon ydych chi eu bod, gyda'i gilydd, yn darparu'r gwahanol elfennau y gofynnwyd amdanyn nhw yn y cwestiwn blaenorol? Sail: Pawb yn y wlad a oedd wedi gwylio unrhyw sianel neu wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y 6 mis diwethaf (Gogledd Iwerddon=317, yr Alban=291, Cymru=301, DU=2917).*

### Mae tri chwarter y rheini sy'n gwylio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn fodlon ar Channel 4, ITV a BBC One

Pan ofynnwyd iddyn nhw ystyried sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn unigol, dywedodd tua thri chwarter eu bod yn fodlon ar Channel 4 (77%), ITV (76%) a BBC One (75%). Dywedodd tua saith o bob deg yr un fath am BBC Two a Channel 5 (y ddau yn 69%).


**Ffigur 20: Bodlonrwydd cynulleidfaoedd â sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol**




*Ffynhonnell: Traciwr PSM Ofcom 2021, C23. Crynodeb Bodlonrwydd - Gan feddwl am rai o'r sianeli penodol rydych chi wedi'u gwylio yn ystod y 6 mis diwethaf, at ei gilydd, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r sianeli teledu hyn? Sail: Pob un yng Nghymru a wyliodd y sianel yn ystod y 6 mis diwethaf.*

## I bobl Cymru, newyddion dibynadwy a chywir yw nodwedd bwysicaf darlledu gwasanaeth cyhoeddus

**Ffigur 21: Y tair nodwedd bwysicaf o ran darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Traciwr PSM Ofcom, C27. Rydyn ni nawr eisiau i chi feddwl beth rydych chi'n teimlo sydd bwysicaf i 'ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus'. Ar gyfer pob set o 5 dewis, dewiswch yr un sydd bwysicaf i gymdeithas yn gyffredinol yn eich barn chi, a pha un fyddai'r lleiaf pwysig? Sail: Pob ymatebydd yng Nghymru a oedd wedi llenwi ar-lein: Cyfanswm (316).*

Ymysg pobl Cymru[14], roedd *'newyddion dibynadwy a chywir am y DU'* yn cael ei ystyried fel elfen bwysicaf darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gymdeithas, gan adlewyrchu canfyddiadau cyffredinol y DU. Dilynwyd hyn gan *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'*, a *'rhaglenni sy'n fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw'*. Mae


---

[14] Gofynnwyd y cwestiwn hwn i'r holl ymatebwyr a lenwodd yr arolwg ar-lein, heb gynnwys y rheini a lenwodd yr arolwg dros y ffôn.

rhaglenni rhanbarthol/cenedlaethol yn bwysicach yng Nghymru nag yn y DU yn gyffredinol; mae *'rhaglenni rhanbarthol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal'* a *'rhaglenni sy'n cynnwys Cymru'*[15] yn cael sgôr uwch yng Nghymru.

Roedd saith gwyliwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus o bob deg yng Nghymru yn meddwl bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud yn dda gyda *'rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU'* (70%). Dywedodd tua dwy ran o dair eu bod yn cyflawni'n dda ar *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* (65%) ac yn *'apelio at ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd'* (65%).

**Ffigur 22: Darparu priodoleddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol**




*Ffynhonnell: Traciwr PSM Ofcom 2021, C26. Yn dda (7-10) Crynodeb – Pa mor dda neu wael fyddech chi'n ei ddweud eu bod yn darparu ...? Sail: Pawb yng Nghymru sydd wedi gwylio sianeli neu wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y 6 mis diwethaf (n=301).*

Roedd cwestiynau am ddarlledwyr unigol wedi datgelu gwahaniaeth barn ynghylch darparu'r priodoleddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru. Ymysg y rheini oedd wedi gwylio yn ystod y chwe mis diwethaf, ystyriwyd bod sianeli teledu'r BBC yn gwneud yn dda o ran darparu *'rhaglenni sy'n fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw'* (66%), *'rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd y DU'* (65%) a *'digwyddiadau darlledu sy'n dod â'r genedl at ei gilydd i gael profiad gwylio ar y cyd'* (63%).

Ar gyfer sianeli ITV, dywedodd saith o bob deg (68%) eu bod wedi darparu'n dda o ran *'rhaglenni wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU'* a thri o bob pump ar gyfer *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* (61%). Ystyriwyd bod sianeli teledu Channel 4 yn perfformio'n dda o ran '*rhaglenni wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU*' (62%) a '*rhaglenni sy'n cynnwys pobl o gefndiroedd gwahanol*' (53%). Ar gyfer sianeli teledu Channel 5, dywedodd hanner (51%) eu bod wedi perfformio'n dda o ran *'rhaglenni wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU'*.

---

[15] I ymatebwyr yn Lloegr, y geiriad oedd 'rhaglenni sy'n cynnwys fy rhanbarth i', i'r Alban 'rhaglenni sy'n cynnwys yr Alban, ac i Ogledd Iwerddon 'rhaglenni sy'n cynnwys Gogledd Iwerddon'.

## S4C – Sianel Pedwar Cymru

Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus unigryw sy'n darparu cynnwys clywedol yn Gymraeg ar deledu a thrwy'r llwyfannau digidol mwyaf poblogaidd gan gynnwys YouTube, Facebook a BBC iPlayer. Fel yr unig wasanaeth cyhoeddus Cymraeg o'i fath, mae'n ceisio cynnig cynnwys sy'n bodloni gofynion ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd, o ran oedran, chwaeth, gallu yn y Gymraeg a genre.

**Cyllid**

Ers 2013 mae'r BBC wedi bod yn gyfrifol am ddarparu'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus ar gyfer S4C o ffi'r drwydded. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd yn cyfrannu £6.7m yn uniongyrchol o'i chyllideb ei hun. O fis Ebrill 2022 ymlaen, bydd holl gyllid cyhoeddus S4C yn cael ei ddarparu o ffi'r drwydded – a bydd y trefniant hwn yn parhau tan ddiwedd y Siarter Frenhinol bresennol. Cytunodd y Llywodraeth hefyd i gynyddu cyllideb S4C £7.5m dros y cyfnod hwnnw, gan ddod â chyfanswm y gyllideb i £91.5m.

**Rhaglenni sy'n cael eu cyfrannu**

Yn ogystal â'r cyllid hwn, mae'r BBC yn darparu o leiaf 520 awr o raglenni teledu y flwyddyn i S4C (ar gost gyfredol o £19.4m y flwyddyn). Y cyflenwad o 'raglenni sy'n cael eu cyfrannu' yw'r enw a'r hyn; mae nifer yr oriau a gyflenwir gan y BBC bob blwyddyn yn ofyniad statudol a nodir yn adran 58.1 o Ddeddf Darlledu 1990. Mae'r cyflenwad presennol o raglenni gan y BBC yn cynnwys rygbi byw, 'Pobol y Cwm', Newyddion a sylw i'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r cytundeb rhwng S4C a'r BBC ynghylch y rhaglenni sy'n cael eu cyfrannu yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ac mae'n debygol o gael ei addasu yn sgil Bil Cyfryngau arfaethedig y Llywodraeth.

**Adolygiad annibynnol o S4C**

Ym mis Mawrth 2019 cyhoeddodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei hymateb i'r adolygiad annibynnol o S4C a oedd yn argymell newidiadau radical i'r ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithredu, gan gynnwys diweddaru cylch gwaith S4C i'w alluogi i ddatblygu ac adeiladu ei gapasiti digidol; dileu'r cyfyngiad daearyddol presennol i Gymru; newid i fodel bwrdd unedol; ei alluogi i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 a rhoi mwy o ryddid masnachol iddo. Mae llawer o hyn yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol, ond wrth dderbyn argymhellion yr adolygiad, anogodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon S4C i roi'r newidiadau ar waith ar unwaith. Mae llawer o hyn wedi digwydd erbyn hyn – er enghraifft, mae Bwrdd Unedol Cysgodol S4C nawr yn gweithredu yn unol ag argymhellion yr adolygiad, er mae angen ymgorffori hyn yn ffurfiol mewn deddfwriaeth yn y Bil Cyfryngau.

**Chwaraeon**

Mae chwaraeon yn genre allweddol yn narpariaeth cynnwys S4C. Roedd wedi darlledu cyfanswm o 437 awr yn ystod 2021-22, gan gynnwys pob un o gemau Cymru yn y Chwe Gwlad. Mae sicrhau hawliau darlledu i ddigwyddiadau chwaraeon Cymru yn flaenoriaeth i S4C ac mae hyn yn aml yn cael ei gyflawni drwy sicrhau hawliau eilaidd gan ddarlledwr arall, neu weithiau drwy sicrhau'r hawliau sylfaenol eu hunain. Gan weithio mewn partneriaeth â Sky, mae S4C wedi darlledu darllediadau Cymraeg o gemau a ddarlledwyd yn Saesneg ar lwyfan Sky. Yn ddiweddar, sicrhaodd yr hawliau i gemau pêl-droed rhyngwladol Cymru rhwng 2022 a 2024, ond ar hyn o bryd nid oes cytundeb ar gyfer y gemau rhwng 2024 a 2027.

## Dywed y rhan fwyaf o wylwyr S4C yng Nghymru eu bod yn fodlon â hi

Dywedodd tri gwyliwr S4C o bob pump (60%) eu bod yn fodlon â'r sianel yn ystod y 6 mis diwethaf; fodd bynnag, roedd cyfran fach yn anfodlon (9%), gyda thri o bob deg (28%) yn niwtral ar y mesur hwn.

Wrth holi ynghylch pa mor dda roedd S4C yn cyflawni ar wahanol elfennau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae rhaglenni rhanbarthol/cenedlaethol wedi dod i'r amlwg fel un o'r meysydd sy'n cael eu darparu orau. Dywedodd tri chwarter eu bod yn rhoi sgôr uchel i *'raglenni sy'n cynnwys Cymru'* (75%), gyda dwy ran o dair (67%) yn rhoi sgôr dda o ran *'rhaglenni rhanbarthol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal'*.

Ymysg y rheini a oedd heb wylio yn ystod y chwe mis diwethaf, un o'r prif resymau pam roedd cynulleidfaoedd yn dewis peidio â gwylio S4C oedd am nad ydynt yn siarad Cymraeg, neu am nad ydynt yn ei siarad yn ddigon rhugl i ymgysylltu â rhaglenni teledu, ac am nad oes ar rai eisiau defnyddio isdeitlau. Mae rhesymau eraill yn cynnwys nad yw'r rhaglenni sydd ar gael yn ddiddorol, neu nad ydynt yn gwylio teledu byw.


***"Dydw i ddim yn siarad Cymraeg felly pur anaml fydda i'n edrych ar y sianel. Mae digon o sianeli eraill ar gael."*** **Menyw, 55-64 oed**

***"Dydw i ddim yn rhugl yn y Gymraeg ac alla i ddim darllen isdeitlau wrth wylio'r teledu."*** **Menyw, 16-24 oed**

## Yn gyffredinol mae cynulleidfaoedd yn fodlon ar y gwasanaethau BVoD sy'n cael eu darparu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Dywedodd saith ymatebydd o bob deg (71%) yng Nghymru eu bod yn credu ei bod yn bwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu gwasanaethau dal i fyny, ar-alw neu ffrydio. Y prif resymau dros ddefnyddio gwasanaethau BVoD oedd dal i fyny ar raglenni (60%), a hwylustod gwylio rhaglenni pryd bynnag roeddent yn dymuno gwneud hynny (47%). Gwylio rhaglenni penodol neu gyfresi (38%) a chael gafael ar raglenni hŷn neu o'r archif (36%) oedd y rhesymau mwyaf poblogaidd nesaf.

**Ffigur 23: Rhesymau dros ddefnyddio BVoD yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Traciwr PSM Ofcom 2021, C33. Pam ydych chi'n defnyddio'r gwasanaethau hyn? [DS- Ymatebion*

*wedi'u codio i gwestiwn agored] Sail: Pob un yng Nghymru a wyliodd sianel BVoD yn ystod y 6 mis diwethaf: (265).*

Pan ofynnwyd iddynt am wasanaethau BVoD, dywedodd tri chwarter (76%) eu bod yn fodlon â BBC iPlayer, gyda'r ffigurau ychydig yn is ar gyfer All4 (69%), ITV Hub (69%) a My5 (64%).[16]

**Ffigur 24: Bodlonrwydd cynulleidfaoedd â gwasanaethau BVoD**




*Ffynhonnell: Traciwr PSM Ofcom 2021, C39. Crynodeb Bodlonrwydd - At ei gilydd, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r gwasanaethau teledu dal i fyny, ar-alw neu ffrydio hyn? Sail: Pawb yng Nghymru sydd wedi gwylio'r llwyfan yn ystod y 6 mis diwethaf (DS nid yw pob gwasanaeth yn cael ei restru yma oherwydd bod y sail yn fach).*

Yng Nghymru, ymysg y rheini a oedd wedi gwylio yn ystod y chwe mis diwethaf, ystyriwyd ei bod hi'n hawdd iawn defnyddio BBC iPlayer; dywedodd saith o bob deg (72%) ei fod yn darparu'n dda o ran *'darparu gwasanaethau sy'n hawdd llywio fy ffordd drwyddynt'* a'i bod yn *'hawdd dod o hyd i rywbeth rydw i eisiau ei wylio'*. Teimlwyd hefyd ei fod yn gwneud yn dda o ran darparu *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* (72%) a *'rhaglenni wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU'* (69%).

Ar gyfer ITV Hub, dywedodd tua dwy ran o dair ei fod yn gwneud yn dda o ran *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* (67%) ac *'apelio at ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd'* (65%) a *'rhaglenni wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU'* (64%).

Mae ychydig dros ddwy ran o dair yn dweud bod All4 yn gwneud yn dda o ran *'apelio at ystod eang o gynulleidfaoedd'* (68%) a *'hawdd dod o hyd i rywbeth rydw i eisiau ei wylio'* (65%). Mae'n darparu'n arbennig o dda ar elfennau sy'n ymwneud â natur unigryw; *'rhaglenni sy'n fy helpu i weld pethau o ongl/persbectif gwahanol'* (56%) a rhaglenni sy'n *'wahanol i ddarparwyr eraill o ran y ffordd maen nhw'n ymdrin â phethau'* (56%).

Mae dros hanner yn dweud bod My5 yn gwneud yn dda o ran *'darparu gwasanaethau sy'n hawdd llywio fy ffordd drwyddynt'* (56%) a *'rhaglenni wedi'u gwneud ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU'* (56%) yn ogystal ag *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* (53%)

Ymysg y rheini nad oeddent wedi gwylio gwasanaethau penodol yn ystod y chwe mis diwethaf, y prif reswm a roddwyd dros beidio â gwylio gwasanaethau BVoD oedd oherwydd y cynnwys a oedd ar

[16] Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys bodlonrwydd â'r rhai cyfatebol y mae'n rhaid talu amdanynt All4+, ITV Hub+.

gael arnynt. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys ffafrio gwasanaethau eraill, peidio â bod yn ymwybodol o wasanaeth neu gael trafferth defnyddio'r gwasanaeth. O ran y nifer fach o ymatebion a grybwyllodd S4C Clic, roedd peidio siarad Cymraeg yn rheswm.

***"Does gen i ddim llawer o ddiddordeb ynddyn nhw. Mae digon o ddewis hebddyn nhw."*** **Menyw 75+ oed**

***"Dydy fy nheledu i ddim yn gallu cynnig hyn."*** **Menyw, 65-74 oed**

## Rhaglenni teledu ar gyfer Cymru ac o Gymru

Mae'r BBC ac ITV Cymru Wales yn darparu rhaglenni'n benodol i wylwyr yng Nghymru ar draws amrywiaeth o genres, ond yn fwyaf arbennig rhaglenni newyddion. Roedd cynnydd o 4% yn y gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf i wylwyr yng Nghymru yn 2021, gyda'r gwariant ar newyddion yn cynyddu fwyaf, sef 10%. Mae rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes yn cyfrif am y gyfran fwyaf o wariant ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (48%) yng Nghymru.

Roedd oriau'r BBC o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng 7% yn 2021 i 573 awr. Yn gyffredinol, cynnwys newyddion yw'r rhan fwyaf o allbwn y BBC i Gymru, sef 64% o'r oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

Mae Cymru yn ffynhonnell bwysig hefyd o gynhyrchu cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddangos ar draws y DU. Yn 2021, cafodd 5.7% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei wario ar gynyrchiadau yng Nghymru.

### Sut rydym yn adrodd ar wariant ar raglenni

Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn ymdrin â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn ogystal â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y wlad a'u darlledu ar draws y DU. Mae'n canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU i'w ddarlledu am y tro cyntaf, sef rhaglenni a gomisiynir gan sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, neu ar ei chyfer, gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn y flwyddyn gyfeirio.

Mae gwariant ar y cynnwys hwn yn cynnwys yr holl gostau a wynebir gan y darlledwr sy'n gysylltiedig â chreu rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys costau cynhyrchu uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer cynyrchiadau mewnol a chostau trwyddedu ar gyfer rhaglenni a gomisiynir, ond nid yw'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â marchnata a dosbarthu.

Mae'r data ariannol a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno mewn termau nominal, sy'n golygu nad yw data hanesyddol wedi cael ei addasu i ystyried chwyddiant. Yn ein hadroddiad rhyngweithiol, gall defnyddwyr weld data ariannol naill ai mewn termau nominal neu 'go iawn' (wedi'u haddasu yn ôl CPI), ac mae'n hawdd i ddefnyddwyr newid rhwng y naill a'r llall.


Mae ein defnydd o ddata nominal yn yr adroddiadau ysgrifenedig yn rhoi darlun syml o'r farchnad mewn termau cyffredin. I'r rheini sy'n dymuno dadansoddi sut mae chwyddiant wedi effeithio'n hanesyddol ar werth y diwydiant, mae'r cyfresi wedi'u haddasu yn ôl CPI yn ein hadroddiad rhyngweithiol yn rhoi mesur dangosol.

## Roedd gwariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi codi ar gyfer newyddion a rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes yn 2021

Roedd cynnydd o 4% yn y gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn 2021. O'r cyfanswm o £27.5m a wariwyd, aeth y rhan fwyaf at raglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes, sef £13.3m; cynnydd o un flwyddyn i'r llall o £0.2.

Rhaglenni newyddion welodd y twf cymharol mwyaf mewn gwariant ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, gan godi 10% o un flwyddyn i'r llall i £11.1m. Fodd bynnag, mae gwariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni materion cyfoes yng Nghymru wedi disgyn 5%.

**Ffigur 25: Gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre (£m)**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Roedd y BBC ac ITV Cymru Wales wedi cynyddu eu gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru yn 2021

Gwelwyd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf gan ITV, roedd ei wariant ar gyfer Cymru wedi codi 5% ers 2020. Mewn termau ariannol, mae hyn yn dwf o £0.3m i £5.9m. Roedd gwariant BBC ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru hefyd wedi codi 4% yn 2021.

**Ffigur 26: Gwariant y BBC ac ITV Cymru Wales ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf heb fod ar y rhwydwaith ar gyfer Cymru (£m)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

### Mae Ofcom yn bwriadu diweddaru sut mae'n rheoleiddio'r BBC

Mae'r hyn mae cynulleidfaoedd ei eisiau, a sut maen nhw'n gwylio ac yn gwrando ar gynnwys, yn newid. Dylai gwaith rheoleiddio Ofcom alluogi'r BBC i ymateb i'r newid hwn mewn ymddygiad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol, nawr ac yn y dyfodol. Yn unol â hyn, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad, *Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC*, ym mis Mehefin eleni. Yn sail i'r drwydded mae'r angen i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig:

- cadw'r gofyniad am newyddion ar gyfer BBC One Wales a BBC Two Wales, a bod o leiaf 90% o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cael eu gwneud yng Nghymru;
- disodli oriau cwotâu rhaglenni heb fod yn newyddion ar gyfer BBC One Wales a BBC Two Wales ag amodau sy'n ymwneud â darparu'r cynnwys hwn. Nod y newid hwn yw rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ddarparu rhaglenni ar iPlayer yn ogystal ag ar y teledu;
- cyflwyno gofynion tryloywder ar gyfer darparu rhaglenni i'r gwledydd, gan fynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau i ddarparu amrywiaeth o gynnwys heb fod yn newyddion a heb fod yn faterion cyfoes ar gyfer y gwledydd yn ei Gynllun Blynyddol, ac yna adrodd ar ei ddarpariaeth gyda'i Adroddiad Blynyddol;
- ychwanegu gofyniad ar gyfer darparu cynnwys heb fod yn newyddion a heb fod yn faterion cyfoes, a gofynion tryloywder, ar gyfer BBC One Wales a BBC Two Wales; a
- mynnu bod y BBC yn nodi ei gynlluniau ar gyfer darparu amrywiaeth o gynnwys i'r gwledydd ar iPlayer ac adrodd ar y ddarpariaeth ochr yn ochr â'i Adroddiad Blynyddol.


Bydd Ofcom yn cyhoeddi datganiad terfynol a Thrwydded wedi'i diweddaru, a fydd yn adlewyrchu sylwadau rhanddeiliaid ar ein cynigion, yn gynnar y flwyddyn nesaf.

## Roedd oriau'r BBC o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng 7% yn 2021 i 573 awr

Mae'r gostyngiad mewn oriau wedi bod ar draws pob genre. Mae'r gostyngiad cyfrannol mwyaf wedi bod mewn materion cyfoes, gan ddisgyn 10 awr i 23 awr (30%).

Yn gyffredinol, cynnwys newyddion yw'r rhan fwyaf o allbwn y BBC i Gymru, sef 64% o'r oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf. Mae hyn yn gynnydd ers 2020, er gwaethaf y gostyngiad bach mewn oriau.

**Ffigur 27: Oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o’r DU sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

### Sgwâr Canolog BBC Cymru

Y cyfleuster cynhyrchu yn y Sgwâr Canolog yw un o’r rhai mwyaf modern yn ystad y BBC ac mae’n darparu cyfleusterau darlledu ar gyfer holl gynnwys BBC Cymru Wales ac S4C ar deledu, radio ac ar-lein. Mae canolfan ragoriaeth y BBC ar gyfer newyddiaduraeth Hinsawdd a Gwyddoniaeth, gan gynnwys tîm arbenigol BBC News ar gyfer yr Hinsawdd a Gwyddoniaeth a thîm cynhyrchu Gwyddoniaeth BBC Radio, yn symud i Gaerdydd. Ar ben hynny, cyhoeddwyd partneriaeth newydd ym mis Rhagfyr 2021 a fydd yn cryfhau’r tîm radio rhwydwaith yng Nghymru, gyda Chaerdydd yn dod yn Ganolfan Sain newydd i Gymru a Bryste.

Mae rhaglen newyddion y BBC am 6 a 10 o’r gloch, *Newsnight* a rhaglen *Today* ar Radio 4 wedi cael eu darlledu o’r Sgwâr Canolog dros y flwyddyn ddiwethaf.

## BBC Cymru a phartneriaethau

Lansiodd y BBC a Cymru Greadigol bartneriaeth newydd yn ystod y flwyddyn yn nodi sut bydd y ddau sefydliad yn adeiladu ar y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd i'r diwydiant, a sut byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd dros y tair blynedd nesaf gyda'r bwriad o sefydlu partneriaeth waith hirdymor sy'n canolbwyntio ar adeiladu sector teledu cynaliadwy yng Nghymru.

Roedd y pandemig wedi parhau i effeithio ar ddigwyddiadau diwylliannol Cymru ar hyd a lled y wlad yn ystod haf 2021 ac roedd BBC Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid fel yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ar fformatau newydd ac arloesol a ddaeth ag uchafbwyntiau diwylliannol i gynulleidfaoedd drwy deledu, Radio Cymru a llwyfannau ar-lein.

Wrth i gynllun Across the UK y BBC gyflymu, ac wrth i'r BBC ddod â'i dimau comisiynu ar draws teledu rhwydwaith a'r gwledydd datganoledig at ei gilydd i gyflawni prosiectau creadigol mwy uchelgeisiol, darparodd y dull partneriaeth newydd nifer o raglenni ar gyfer y rhwydwaith a BBC Cymru gan gynnwys *Hot Cakes* a *The Pact* a bydd rhagor o raglenni'n cael eu darlledu dros y misoedd nesaf.

## Cynnwys

Parhaodd stori ddrama BBC Cymru Wales y llynedd gyda dau gynhyrchiad drama rhwydwaith mawr. Roedd miliynau o bobl ar draws y DU wedi mwynhau *The Pact,* cyfres chwe rhan gan Pete McTighe, a gynhyrchwyd gan Little Door Productions yng Nghaerdydd. Cafodd y rhaglen ddogfen rymus, *A Killing in Tiger Bay,* ei darlledu yn y DU ym mis Medi a chafodd glod mawr; roedd yn adrodd hanes un o'r achosion mwyaf o gamweinyddu cyfiawnder yn y DU. Roedd y gyfres dair rhan yn canolbwyntio ar y digwyddiadau dychrynllyd yn dilyn llofruddiaeth Lynette White yn 1988.

Roedd BBC Cymru wedi dilyn tîm pêl-droed Cymru, ar bob llwyfan, yn ystod rowndiau terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA a aildrefnwyd, gyda sylw, sylwebaeth ac uchafbwyntiau yn ogystal â chynnwys ychwanegol i gefnogwyr, gan gynnwys trosglwyddo *Elis James' Feast of Football* o bodlediad i'r teledu. Llwyddodd BBC Cymru i sicrhau'r hawliau i roi sylw i dîm pêl-droed y merched wrth iddynt gystadlu am le yng Nghwpan y Byd. Rhoddwyd sylw hefyd i dimau'r dynion a'r merched ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad.

## Adnewyddu trwyddedau Sianel 3

Bydd trwyddedau Sianel 3 ITV yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2024. O dan Adran 229 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, cyflwynodd Ofcom adroddiad i Lywodraeth y DU ym mis Mehefin eleni cyn rownd drwyddedu newydd ar gyfer gwasanaethau Sianel 3.[16] Diben hyn oedd asesu capasiti'r rheini a oedd eisoes yn dal y trwyddedau i barhau i gyflawni eu rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Daeth Ofcom i'r casgliad bod achos da dros fwrw ymlaen i adnewyddu'r trwyddedau, gan ganfod:

- Mae gan ddeiliaid trwydded Sianel 3 enw da am ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd ac maen nhw'n debygol o barhau i wneud hynny dros gyfnod y drwydded nesaf.
- Mae cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi'r sianeli: mae bron i hanner pawb yn y DU yn gwylio Sianel 3 bob wythnos ac mae lefel bodlonrwydd y gwylwyr yn uchel, sef 75%.
- Mae'r trwyddedeion yn chwarae rhan bwysig yn sector cynhyrchu'r Deyrnas Unedig.
- Mae Sianel 3 yn darparu cystadleuaeth a llais amgen i'r BBC ac mae'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu lluosogrwydd darpariaeth newyddion yng Nghymru.
- Gallai rhwymedigaethau'r drwydded bresennol fod yn gynaliadwy'n fasnachol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded ond mae'r manteision yn debygol o ddisgyn dros amser. Byddai cynaliadwyedd yn cael ei gryfhau, serch hynny, drwy weithredu diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig y Llywodraeth i reoleiddio amlygrwydd.

Ar hyn o bryd, mae trwyddedau rhanbarthol Sianel 3 yn cynnwys rhwymedigaethau i ddarparu cynnwys newyddion rhanbarthol a chynnwys rhanbarthol heb fod yn newyddion, gyda faint o gynnwys sydd ei angen yn amrywio yn ôl trwydded. Yng Nghymru, rhaid i ITV wneud 5.5 awr o raglenni rhanbarthol bob wythnos ar gyfartaledd, a rhaid i 4 awr o hynny fod yn newyddion. O'r 1.5 awr sy'n weddill, rhaid i 47 munud fod yn faterion cyfoes. Mae'r gofynion rhanbarthol yn helpu i hyrwyddo lluosogrwydd yn y cyfryngau (gan ddarparu cystadleuaeth i newyddion rhanbarthol y BBC), yn cefnogi cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac yn helpu i sicrhau ystod amrywiol o raglenni ar gyfer cynulleidfaoedd.


## Roedd oriau ITV Cymru Wales o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi tyfu o un flwyddyn i'r llall, gyda 332 awr o allbwn rhaglenni yn 2021

Cynnwys newyddion yw mwyafrif helaeth allbwn ITV Cymru Wales, sef 78% (258 awr) o'r rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar y sianel.

Mae'r cynnydd mewn oriau wedi bod ar draws pob genre. Mae'r cynnydd cyfrannol mwyaf wedi bod ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion/materion cyfoes, gan gynyddu 13 awr i gyrraedd 19 awr.

Mae uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys ***A Year in the Beacons***, a oedd yn gomisiwn ar y cyd rhwng ITV Cymru Wales ac ITV Network. Roedd yn croniclo bywyd drwy'r tymhorau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Ffigur 28: Oriau ITV Cymru Wales o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## ITV Cymru Wales

**Partneriaeth gyda Mencap Cymru**

Mae ITV Cymru Wales wedi lansio partneriaeth gyda Mencap Cymru, gyda'r nod o helpu i chwalu rhwystrau i bobl anabl sy'n ceisio gweithio yn y diwydiant teledu a darlledu. Fel rhan o'r bartneriaeth hon, cynhaliodd ITV Cymru Wales ddiwrnodau hyfforddi yn y cyfryngau ar gyfer pobl a gefnogir gan Mencap Cymru a'u grwpiau lleol, pob un ohonynt ag anabledd dysgu.

**Lansio *Backstage***

Ym mis Mehefin 2022, lansiodd ITV Cymru Wales raglen gelf bwrpasol a oedd yn arddangos doniau o bob cwr o Gymru. Mae'r gyfres newydd yn cynnwys cyfweliadau estynedig gyda rhai o artistiaid newydd Cymru; perfformiadau cerddorol arbennig; a thrafodaethau stiwdio gyda'r rheini sy'n ymwneud â diwydiant celfyddydau Cymru.

## Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn un o asiantaethau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Ei nod yw cefnogi doniau lleol a denu prosiectau creadigol rhyngwladol drwy gyllido, darparu gwasanaethau arbenigol a chyfeirio at y cyfleusterau, criwiau medrus a thalent sy'n bodoli ar draws Cymru.

Mae Cymru Greadigol yn dal i weithio'n agos gyda phobl greadigol ar draws y sectorau sgrin, cerddoriaeth, digidol a sgiliau, gan ddarparu amrywiaeth o gymorth i helpu i gyflawni ei uchelgeisiau ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru wrth i'r sector ddod allan o bandemig Covid-19. Mae cyllid datblygu ar gael i'r sectorau sgrin a digidol; dyfarnwyd £453,000 i 23 o brosiectau sgrin, ac mae £651,000 wedi cael ei ddosbarthu drwy'r Gronfa Datblygu Digidol. Lansiwyd Cronfa Gynhyrchu newydd ym mis Mai 2022 i gefnogi prosiectau ffilm, teledu, gemau ac animeiddio sy'n cael eu gwneud yng Nghymru. Hefyd yn 2021, ymrwymodd Cymru Greadigol i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r BBC ac S4C i adeiladu ar y cysylltiadau cadarnhaol presennol a thynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.

Mae'r sectorau sgrin a digidol yng Nghymru yn dal i dyfu, gyda nifer o gynyrchiadau uchel eu proffil yn cael eu gwneud ar hyn o bryd, gan gynnwys *The Pact 2* gan Little Door Productions a *Wolf* gan Hartswood. Yn 2022, bydd y prosiect media.cymru gwerth dros £50m yn cael ei lansio gyda chyllid craidd o gronfa 'strength in places' Innovate UK, Bargen Ddinesig Caerdydd a Cymru Greadigol. Mae hwn yn brosiect pum mlynedd i gefnogi ymchwil a datblygu yn y sector cyfryngau yn ne-ddwyrain Cymru a bydd yn cynnwys datblygu seilwaith cynhyrchu rhithiol yn Stiwdios Seren a chronfa Ymchwil a Datblygu ar gyfer y diwydiannau creadigol ar draws Cymru.


Gyda sefydlu Corff Sgiliau Creadigol, a datblygu cynllun gweithredu sgiliau a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf, mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod cyfleoedd cynhwysol a hygyrch ar gael i bobl greadigol ddatblygu eu sgiliau a'u doniau. Mae pedwar ar ddeg o brosiectau sgiliau wedi cael eu cefnogi, gan gynnwys Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NFTS) Cymru, CRIW, Cyswllt Diwylliant Cymru a rad Cymru. Mae blaenoriaethau'r dyfodol yn cynnwys annog y sector i ddod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy. Mae'r camau gweithredu presennol yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r BFI, BAFTA Albert ac Arup *Screen New Deal: Transformation Plan*, i gasglu data lleol a mapio i helpu i greu cynllun trawsnewid sy'n seiliedig ar leoliadau i ddatgarboneiddio cynhyrchu gwaith teledu a ffilm.

## Cynnwys rhwydwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru

Mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud rhaglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar eu sianeli teledu rhwydwaith mewn amrywiaeth o lefydd o amgylch y DU. Mae gan y darlledwyr gwotâu sy'n ymwneud â hyn, o ran cyfran yr oriau cymwys a chyfran y gwariant cymwys sy'n gorfod bod y tu allan i Lundain. Mae gan y BBC gwotâu unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU ac mae gan Channel 4 gwota 'tu allan i Loegr' hefyd. Nid oes gofyniad penodol i ITV na Channel 5 gynhyrchu cynnwys y tu allan i Loegr.

Ymysg yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cafodd 5.7% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar raglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ei neilltuo i raglenni sy'n cyfrif fel cynyrchiadau o Gymru, a 3.5% o'r oriau.

**Ffigur 29: Cyfran yr oriau rhwydwaith a'r gwariant cymwys y tu allan i Lundain, pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd: 2016-2021**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cynyddu cyfran eu cynnwys rhwydwaith sy’n cael ei wneud yng Nghymru

Roedd cyfran gwariant rhwydwaith cymwys y BBC a ddyrennir i Gymru, sydd fel arfer yn cynrychioli prif ffynhonnell yr holl gynnwys rhwydwaith cymwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus a wnaed yng Nghymru, wedi disgyn i 7.2% yn 2021. Ond nid oedd hyn yn adlewyrchu llai o wariant rhwydwaith cymwys yng Nghymru mewn termau real, dim ond gostyngiad cyfrannol. A dweud y gwir, cynyddodd cyfran yr oriau rhwydwaith cymwys a wnaed yng Nghymru yn 2021, i 5.3%. Roedd hyn yn cynnwys rhaglenni fel *Bargain Hunt*, *Casualty*, a phenodau newydd o *Doctor Who*.

**Ffigur 30: Cyfran y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys yng Nghymru, yn ôl darlledwr gwasanaeth cyhoeddus: 2016-2021**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Archwilio datganoli darlledu

Yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, roedd Plaid Lafur Cymru yn brin o fwyafrif gweithredol a dewisodd ffurfio cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru. Mae'r cytundeb yn ymdrin ag ystod eang o feysydd polisi y mae'r ddwy blaid wedi bod yn weddol gytûn yn eu cylch ers peth amser, ond roedd cynnwys cais i ddatganoli darlledu a chyfathrebu yn syndod i lawer, o gofio bod y naill lywodraeth Lafur ar ôl y llall yng Nghymru wedi bod yn gyson yn eu gwrthwynebiad i ddatganoli darlledu. Mae'r cytundeb yn datgan y bydd y naill barti a'r llall yn: "*Ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch elfennau bregus yn y cyfryngau ar hyn o bryd a'r ymosodiadau ar eu hannibyniaeth. Byddai'r corff hwn yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y maes digidol ac yn annog lluosogrwydd yn y cyfryngau. Rydym ni o'r farn y dylai pwerau darlledu a chyfathrebu gael eu datganoli i Gymru.*" Mae hefyd yn cynnwys ymrwymiad i "*gyllido mentrau presennol a newydd i wella newyddiaduraeth yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â diffyg gwybodaeth*." Ar 14 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru aelodau ei Phanel Arbenigwyr ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru.

# Radio a sain

## Cyflwyniad


Mae radio yn dal yn boblogaidd yng Nghymru, ac ochr yn ochr â gwylio sgrin deledu a gweithgareddau ar-lein, mae'n dal i gynrychioli cryn dipyn o'r amser sy'n cael ei dreulio ar wasanaethau adloniant. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae gwasanaethau'r BBC yn fwy poblogaidd yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU, ac mae Global wedi atgyfnerthu ei safle fel y grŵp masnachol cryfaf yng Nghymru.

Nid yw dulliau eraill o wrando mor gyffredin yng Nghymru ag yng ngwledydd eraill y DU. Mae gwrando ar radio byw drwy set radio yn uwch yng Nghymru nag ym Mhrydain Fawr, ac mae'r gyfran sy'n gwrando drwy seinydd clyfar yn dal yn is yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw.

### Mae naw person o bob deg yn gwrando ar y radio

Mae radio yn dal yn boblogaidd yng Nghymru, gyda mwy na naw o bob deg yn dweud eu bod wedi gwrando ar y radio yn ystod yr wythnos diwethaf. Mae pobl yn gwrando ar y radio am oddeutu 22 awr bob wythnos, gyda'r rhan fwyaf o'r gwrando hwn yn cael ei briodoli i wasanaethau radio'r BBC. O ran cyrhaeddiad cyffredinol, mae bron i saith o bob deg yn gwrando ar radio'r BBC bob wythnos, gyda'r rhan fwyaf o'r bobl hyn yn gwrando ar orsafoedd y BBC sy'n darlledu ar draws y DU (64%). Mae BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru yn cyrraedd tua 18% o bobl bob wythnos. Mae ychydig yn llai o bobl yn gwrando ar radio masnachol na radio'r BBC yn gyffredinol, sef 63%. Mae gwasanaethau masnachol lleol yn cyrraedd pedwar o bob deg yng Nghymru o'i gymharu â 45% ar gyfer gorsafoedd radio masnachol sy'n darlledu ar draws y DU.

**Ffigur 31: Cyrhaeddiad wythnosol yn ôl sector, yn ôl gwlad: Ch1 2022**





*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2022; Gogledd Iwerddon = BBC Radio Ulster; yr Alban = BBC Radio Scotland TSA; Cymru = BBC Radio Wales TSA.*

## Mae Global yn atgyfnerthu ei safle fel y grŵp masnachol cryfaf yng Nghymru, gan fod yn gyfrifol am dros un rhan o bump o'r oriau

Mae gorsafoedd radio'r BBC yn cyfrif am tua hanner cyfanswm yr oriau gwrando ar y radio, ac mae'r rhan fwyaf o hyn yn cael ei briodoli i orsafoedd radio'r BBC sy'n darlledu ar draws y DU. Mae Global yn gyfrifol am y gyfran fwyaf o wrando ar radio masnachol, gyda 23% o gyfanswm yr oriau i'r grŵp hwn, gan gynnwys Capital Cymru, Capital North West and Wales, a Heart South Wales fel yr orsaf sy'n perfformio orau. Mae hyn yn cymharu â 9% ar gyfer Bauer, 2% ar gyfer Di-wifr a 6% ar gyfer gorsafoedd radio masnachol eraill.

**Ffigur 32: Y gyfran o oriau gwrando, yn ôl grŵp radio**




*Ffynhonnell: RAJAR; BBC Radio Wales TSA.*

# Gwrando ar radio digidol yng Nghymru

## Nid oedd darpariaeth gwasanaethau DAB lleol yng Nghymru wedi newid ym mis Mawrth 2022

Mae darpariaeth amlblecsau DAB cenedlaethol yng Nghymru wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod darpariaeth amlblecs DAB lleol y DU yn gyffredinol wedi tyfu ychydig rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2022, ar ôl lansio amlblecsau lleol yn Lloegr, arhosodd y ddarpariaeth ar gyfer cartrefi yng Nghymru yn sefydlog ar 82.6%.

**Ffigur 33: Darpariaeth gwasanaethau DAB: Mawrth 2022**

| | | Y BBC ar draws y DU | Masnachol | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Digital One | Sound Digital | DAB Lleol |
| Y DU | Cartrefi | 97.4% | 91.7% | 82.6% | 92.0% |
| | Priffyrdd | 87.4% | 80.2% | 72.6% | 76.8% |
| Lloegr | Cartrefi | 98.4% | 94.8% | 86.7% | 93.4% |
| | Priffyrdd | 94.5% | 93.9% | 89.8% | 87.4% |
| Yr Alban | Cartrefi | 95.3% | 81.7% | 69.0% | 85.4% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Priffyrdd | 69.1% | 45.5% | 33.6% | 45.6% |
| Cymru | Cartrefi | 92.2% | 67.5% | 56.9% | 82.6% |
| | Priffyrdd | 78.1% | 53.3% | 37.7% | 60.9% |
| Gogledd Iwerddon | Cartrefi | 87.3% | 85.4% | 56.8% | 87.5% |
| | Priffyrdd | 79.3% | 86.9% | 55.0% | 87.8% |

*Ffynhonnell: Arqiva, BBC, Ofcom.*

**Ofcom yn bwrw ymlaen â'i raglen drwyddedu DAB graddfa fach yng Nghymru**

Mae DAB graddfa fach yn dechnoleg arloesol sy'n rhoi llwybr rhad i ddarlledu gwasanaethau masnachol, cymunedol a cherddoriaeth arbenigol ar radio digidol daearol mewn ardal ddaearyddol gweddol fach.

Mae'n rhoi llwybr fforddiadwy i radio cymunedol, gorsafoedd radio masnachol llai a newydd-ddyfodiaid at radio digidol daearol, gan sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau radio yn parhau i fod ar gael ar lwyfan digidol sy'n cyfrif am fwy a mwy o wrando ar radio. Cafodd GTFM (South Wales) Ltd a Cardiff DAB Ltd ill dau drwyddedau DAB graddfa fach yn rownd un, a dyfarnwyd y drwydded amlblecs ar gyfer Wrecsam i Wrexham DAB Ltd. yn rownd dau yn gynharach eleni. Ar hyn o bryd mae Ofcom wrthi'n asesu'r ceisiadau a gafwyd ar gyfer ardaloedd trwydded Llandudno a Betws y Coed ac Abertawe (rownd tri).


Roedd Ofcom wedi hysbysebu ardaloedd trwyddedu rownd pedwar ddechrau mis Gorffennaf; yng Nghymru mae'r rhain yn cynnwys Ynys Môn a Gogledd Gwynedd, Gogledd Sir Benfro a Chasnewydd a Chas-gwent. Bydd y trwyddedau'n cael eu dyfarnu mewn proses gystadleuol, gyda cheisiadau'n cael eu tafoli yn erbyn meini prawf statudol penodol.

## Mae gwrando ar radio ar-lein yn cadw ei gyfran o wrando cyffredinol, ond nid yw seinyddion clyfar wedi cael yr un effaith ag y maent wedi'i chael ar y DU drwyddi draw

Roedd gwrando ar-lein wedi cyrraedd lefelau cymharol uchel yn barod ac mae wedi cadw ei gyfran o wrando cyffredinol sef 18%. Yn ddiddorol, gwelwn fod seinyddion clyfar ar lefel y DU yn gyfran fach ond arwyddocaol o gyfanswm y gwrando, sef 10% o gyfanswm yr oriau, ond yng Nghymru nid yw'n ymddangos bod y ddyfais wedi cael cymaint o effaith ar wrando ar y radio, sef tua 4% o'r oriau cyffredinol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod lefelau perchnogaeth seinydd clyfar yn uwch yng Nghymru nag yn y DU drwyddi draw: Mae gan 45% o bobl 16+ oed seinydd clyfar yn eu cartref, o'i gymharu â 39% yn y DU.[17]

[17] Traciwr Technoleg 2022 Ofcom.

**Ffigur 34: Cyfran y gwrando, yn ôl llwyfan**




*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2022; BBC Radio Wales TSA.*

### BBC Cymru Wales

Mae'r BBC wedi cyhoeddi ei fwriad i gynyddu oriau darlledu Radio Cymru 2 o 15 awr yr wythnos i dros 60 awr. Bydd BBC Radio Cymru yn dal i ddarlledu ei hamserlen ar FM ac ar radio digidol. Bydd BBC Radio Cymru 2 ar yr awyr am hyd at 12 awr ar ddigidol, gan gynnig cymysgedd o raglenni cerddoriaeth wedi'u cyfuno â rhai o raglenni adloniant Radio Cymru, sy'n cael eu darlledu ar yr un pryd.


Lansiwyd BBC Radio Cymru 2 yn 2018 ac mae wedi darlledu sioe frecwast yn bennaf rhwng 7.00 a 9:00 bob bore. O hydref 2022 ymlaen, y bwriad yw darlledu amrywiaeth eang o gerddoriaeth boblogaidd a chyfoes. Bydd BBC Radio Cymru 2 yn ceisio ymestyn y dewis drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae wedi'i anelu'n benodol at gynulleidfaoedd na fyddent yn draddodiadol yn gwrando ar Radio Cymru.

Fel rhan o'i gynnwys ar gyfer radio rhwydwaith, yn 2021 parhaodd BBC Cymru i wneud *Composer of the Week* ar gyfer Radio 3 a chynhyrchodd nifer o gyfresi dogfen ar gyfer Radio 4 gan gynnwys *Young Farmers* a *Past Forward: a Century of Sound*, gan nodi dathliadau BBC100. Bu'r tîm drama yn gweithio gyda BBC Scotland i gynhyrchu *United Kingdoms*, cyfres fawr o ficro-ddramâu gan awduron a chynhyrchwyr ar draws y gwledydd. Roedd uchafbwyntiau eraill o ran drama yn cynnwys *The Miser* i Radio 3, a oedd yn cynnwys Toby Jones, i nodi 400 o flynyddoedd ers genedigaeth Molière. Bu BBC Cymru yn gweithio'n agos gyda BBC Radio 6 Music ar BBC Radio 6 Music Festival, a ddarlledwyd mewn lleoliadau ledled Caerdydd ym mis Mawrth ac a oedd yn cynnwys amrywiaeth o gerddoriaeth ac adloniant.

## Roedd gwrando ar radio byw ar set radio yn fwy poblogaidd ymysg oedolion yng Nghymru nag ym Mhrydain Fawr

Er bod y patrwm yn eithaf tebyg, mae rhai gwahaniaethau nodedig o ran cyrhaeddiad wythnosol mathau o sain rhwng Cymru a Phrydain Fawr drwyddi draw. Roedd gwrando ar radio byw ar set radio yn uwch ar gyfer oedolion yng Nghymru nag ym Mhrydain Fawr yn 2022, sef ychydig o dan ddwy ran o dair o oedolion Prydain Fawr (65%) ac ychydig o dan dri chwarter (74%) y rheini yng Nghymru. Roedd cyrhaeddiad cerddoriaeth bersonol mewn fformatau analog hefyd yn uwch nag ymysg oedolion Prydain Fawr (22% o'i gymharu â 15%). I'r gwrthwyneb, roedd cyrhaeddiad wythnosol cerddoriaeth wedi'i ffrydio a radio ar-lein yn is yng Nghymru nag ym Mhrydain drwyddi draw, efallai oherwydd effaith gynyddol seinyddion clyfar ar wrando ar-lein yn y gwledydd eraill, fel y nodwyd uchod.

**Ffigur 35: Cyrhaeddiad wythnosol gwahanol fathau o sain: Oedolion 15+ Cymru v Prydain Fawr**





*Ffynhonnell: IPA TouchPoints 2022 ton 1 – Ion-Mawrth 2022. Nodyn: Nid yw data TouchPoints yn cynnwys Gogledd Iwerddon.*

## Mae pobl yng Nghymru yn llai tebygol na phobl yn yr Alban a Lloegr o ffrydio cerddoriaeth drwy Spotify

Er bod Spotify yn cyfrif am y gyfran fwyaf o amser a dreuliwyd yn ffrydio cerddoriaeth yn 2022, roedd y gyfran hon yn is o lawer yng Nghymru na chyfartaledd Prydain Fawr. Yng Nghymru, roedd 57% o'r amser a dreuliwyd yn ffrydio cerddoriaeth yn cael ei dreulio yn gwrando ar Spotify, o'i gymharu â 70% yn fwy cyffredinol. Yn lle hynny, mae'r rheini yng Nghymru yn treulio tair gwaith cymaint o amser yn gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth eraill, sy'n debygol o gynnwys prif lwyfan YouTube (14% o'i gymharu â 4%).

**Ffigur 36: Cyfran yr amser sy'n cael ei dreulio'n ffrydio cerddoriaeth, yn ôl llwyfan: Cymru v Prydain Fawr**




*Ffynhonnell: IPA TouchPoints 2022 ton 1 – Ion-Mawrth 2022.*

## Mae pobl yng Nghymru'n fwy tebygol na phobl yn y DU drwyddi draw o fod yn berchen ar seinydd clyfar

Mae gan bron i hanner pobl 16+ Cymru (45%) seinydd clyfar yn eu cartref, sy'n uwch na'r cyfartaledd cyffredinol ar gyfer cartrefi'r DU (39%). Amazon Echo yw'r math mwyaf poblogaidd o bell ffordd (sydd mewn 82% o gartrefi sy'n berchen ar y ddyfais), ac yna Google Home/Google Nest (16%).

Gwrando ar gerddoriaeth drwy wasanaeth ffrydio (62%) a gwrando ar radio byw (59%) oedd y gweithgareddau mwyaf poblogaidd y defnyddiwyd y seinydd clyfar ar eu cyfer. Roedd y rhain wedi cael eu dilyn gan: chwilio am wybodaeth (39%), cael adroddiadau am y tywydd (36%) a'i ddefnyddio fel larwm (29%). Roedd pobl yng Nghymru yn llawer llai tebygol na'r rheini yn y DU drwyddi draw o ddefnyddio eu seinydd clyfar i wrando ar radio dal i fyny (8% o'i gymharu â 17%).

**Ffigur 37: Defnyddio seinyddion clyfar yng Nghymru**





*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2022.*

## Cynyddodd refeniw radio masnachol y pen yng Nghymru 16% rhwng 2020 a 2021

Yn 2021, roedd refeniw radio masnachol y pen yng Nghymru yn £4.55, sy'n gynnydd o 16% o un flwyddyn i'r llall.

**Ffigur 38: Refeniw radio masnachol y pen, yn ôl gwlad y DU: 2021 (£)**




| | Newid o un flwyddyn i'r llall |
|---|---|
| UK | 15% |
| Lloegr | 15% |
| Yr Alban | 16% |
| Cymru | 16% |
| Gogledd Iwerddon | 14% |

*Ffynhonnell: Ffurflenni'r darlledwr, dadansoddiad Ofcom. DS: Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud yn llwyr â'r trosiant perthnasol a gofnodwyd ar gyfer trwyddedau AL (analog lleol masnachol) ac maent yn cynnwys refeniw lleol a chenedlaethol a nawdd hy nid dim ond y refeniw sy'n gysylltiedig â hysbysebion sydd wedi'u hanelu ar gyfer gwlad benodol. Gan nad oedd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2021 ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad, mae data poblogaeth canol blwyddyn 2020 wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer 2020 a 2021.*